Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
—
Health and Social Care Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

21 Ebrill 2023

Annwyl Julie

Polisi rhyddhau o'r ysbyty Cymru gyfan a'r canllawiau cysylltiedig

Roedd argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 yn gofyn am wybodaeth am ba mor hir y disgwylir i'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ar 30 Rhagfyr 2022, sy'n datgan y gellir rhyddhau cleifion tra'n aros am asesiad gofal cymdeithasol neu heb fod pecyn gofal yn ei le, barhau mewn grym.

Yn eich ymateb i'n hargymhelliad, egluroch chi fod y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022 "yn cefnogi'r canllawiau presennol ar ryddhau cleifion o'r ysbyty sydd eisoes ar gael yn y system", ac felly y byddai'n "parhau ar waith hyd y gellir rhagweld".

Rydym yn nodi bod y canllawiau 'Cyflawni'r canlyniadau a'r profiad gorau i bobl yn yr ysbyty', sy'n rhan o'r Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, yn nodi:

> *"Mae polisi rhyddhau Cymru gyfan yn cael ei ddiweddaru (2022) a dylid ei ddefnyddio i ategu'r broses o drosglwyddo cleifion pan fyddant wedi'u hoptimeiddio'n glinigol ac y gallant symud i le gofal mwy addas. Dylai cam nesaf eu gofal gael ei nodi gan y llwybr D2RA y maent arno.*
>
> *Bydd dau ganllaw newydd ar gael a fydd yn ategu'r fframwaith hwn ac yn dod yn rhan o'r polisi rhyddhau diwygiedig:*

- *Canllawiau ar gyfer Rôl Aseswr Dibynadwy*

- *Canllawiau Rhyddhau Cleifion Anfodlon.*"

Byddem yn ddiolchgar pe gallech wneud y canlynol:

1. Darparu wybodaeth ynghylch pryd y bydd y polisi Cymru gyfan wedi'i ddiweddaru, a phryd y caiff y canllawiau newydd ynghylch Rôl Aseswr Dibynadwy a Rhyddhau Cleifion Anfodlon eu cyhoeddi.

2. Ymrwymo i ddarparu copïau o bob un o'r tair dogfen i ni pan fyddant ar gael.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 9 Mehefin 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.